POLISI MYNEDIAD CYHOEDDUS AT Y RHYNGRWYD

Cyflenwir mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd gan Wasanaeth Archifau Gwynedd fel rhan o'i amcan i hybu y defnydd o wybodaeth ac ymwybyddiaeth o'i werth. Mae'r ddarpariaeth yn ran o strategaeth y Gwasanaeth i gyfrannu at neu sefydlu cyfundrefnau rhwydweithiol a chydweithredol i sicrhau bod gwybodaeth ac eitemau'n cael eu cyflenwi yn effeithiol gan gynnwys y defnydd o dechnoleg gwybodaeth.

Nid oes gan Wasanaeth Archifau Gwynedd reolaeth dros wybodaeth y ceir mynediad ati ac ni ellir ei ddal yn gyfrifol am y cynnwys neu ansawdd y wybodaeth a gyflwynir.

Gwaherddir trosglwyddo unrhyw ddeunydd sydd yn groes i gyfraith gwlad. Mae hyn yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i, ddeddfau hawlfraint, deunydd pornograffig neu ddeunydd â warchodir gan ddeddfau masnachu. Ni chaniateir defnydd ar gyfer pwrpasau masnachol.

Fel yn achos pob deunydd Archifau, mae'r defnydd a wneir gan blant o'r mynediad i'r Rhyngrwyd yn gyfrifoldeb rhiant/rhieni y plentyn neu'r sawl sydd â chyfrifoldeb amdano/amdani.

Trwy'r polisi hwn nodir y datganiad mai ar gyfer defnydd ymchwil a gwybodaeth yn unig y dylid defnyddio mynediad at y Rhyngrwyd.
Ni chodir tâl am ddefnyddio mynediad at y Rhyngrwyd ond bydd tâl am dudalennau a argraffir trwy ddefnyddio offer y Gwasanaeth Archifau.

Caniateir arbed deunydd ar ddisg a gyflenwir gan y Gwasanaeth Archifau ond ni chaniateir arbed deunydd ar ddisg na throsglwyddo gwybodaeth o ddisg ar gyfer defnydd y Rhyngrwyd.